# Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date of publication:  Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Datblygu Cynaliadwy: 2020/03 - Tlodi Tanwydd a Buddsoddi mewn Eiffeithlonrywdd Ynni**

**Gofynnodd y Cynghorydd C. Evans:**

Mae'r wythnos hon yn 'Wythnos Arbed Ynni Fawr', sy'n ymgyrch genedlaethol i helpu pobl i dorri eu biliau tanwydd.

Mae llawer o gynghorau'n partnera gyda'r Gymdeithas Ynni Genedlaethol, elusen sy'n gweithio i ddileu tlodi tanwydd ac yn ymgyrchu dros fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni i helpu pobl anghenus neu agored i niwed i gadw'n gynnes mewn ffordd fforddiadwy.

Drwy weithio gyda'r Gymdeithas Ynni Genedlaethol, mae'r cynghorau hyn yn rhoi hyfforddiant ynni am ddim i'w preswylwyr, am ychydig iawn o gost i'r cyngor, neu ddim cost o gwbl.

Pam nad yw'ch gweinyddiaeth chi yn estyn allan ac yn darparu cyngor a chymorth tebyg i bobl Casnewydd? Wnewch chi addo y byddwch yn cysylltu â'r Gymdeithas Ynni Genedlaethol ac ymchwilio i'r psoibilrwydd o weithio gyda nhw yn y dyfodol?

**Ymatebodd y Cynghorydd Davies:**

Mae fy ngweinyddiaeth yn cefnogi nod Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni o leihau'r nifer o bobl sydd mewn tlodi tanwydd.

Mae Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni (Nid Cymdeithas) yn sefydliad bach sy'n gweithio ledled y DU, ac mae dulliau o weithio mewn partneriaeth gyda'r gangen yng Nghymru - NEA Cymru - ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu datblygu.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda rhaglen Arbed Am Byth Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i drigolion Casnewydd.

Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ystod o gyfleoedd lleihau carbon er mwyn cefnogi preswylwyr.